Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Ymateb gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru

i

Lywodraeth Cymru, Safonau Gwasanaeth Addasiadau Tai

Rhagfyr 2018

Am fwy o wybodaeth am yr ymateb hwn, cysylltwch â:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL
03442 640 670

Am y Comisiynydd

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais annibynnol ac yn hyrwyddwr i bobl hŷn ledled Cymru, yn eu hamddiffyn ac yn siarad ar eu rhan. Mae'n gweithio i sicrhau bod y rhai sy'n agored i niwed ac mewn perygl yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn sicrhau bod gan bob unigolyn hŷn lais sy'n cael ei glywed, bod ganddynt ddewis a rheolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn cael eu gwahaniaethu yn eu herbyn a'u bod yn cael y gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae gwaith y Comisiynydd yn cael ei hybu gan yr hyn y mae pobl hŷn yn ei ddweud sydd bwysicaf iddyn nhw ac mae eu lleisiau wrth wraidd yr hyn y mae hi'n ei wneud.

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru:

- Yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o hawliau a buddiannau pobl hŷn yng Nghymru.
- Yn herio gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yng Nghymru.
- Yn annog arfer gorau gyda thriniaeth pobl hŷn yng Nghymru.
- Yn adolygu'r gyfraith sy'n effeithio ar ddiddordebau pobl hŷn yng Nghymru.

Safonau Gwasanaeth Addasiadau Tai

Mae pobl hŷn yn gallu treulio mwy o amser yn eu cartref (hyd at 90%[1]) a'u cymdogaeth leol nag unrhyw grŵp oed arall. Mae cartrefi yn hanfodol ar gyfer llesiant pobl hŷn, a'u gallu i fyw'n annibynnol – ac yn rhyng-ddibynnol gydag eraill.

Mae'r ddolen rhwng tai ac iechyd yn hysbys iawn hefyd[2]. Roedd un o bob 20 neu 5% yn 'anaddas', yn bennaf oherwydd problemau gyda lleithder, awyru gwael neu wresogi gwael[3]. Mae 360,000 o bobl hŷn yn byw mewn tlodi tanwydd yng Nghymru[4], ac yn gorfod dewis rhwng gwresogi eu cartref neu fwyta. Mae amgylcheddau adeiledig o ansawdd gwael yn gysylltiedig â lefelau is o lesiant meddwl ymysg pobl hŷn[5], ac mae tua un rhan o dair o bob anaf yn digwydd yn y cartref, gan amlaf wrth ddefnyddio'r grisiau, yn y gegin neu yn yr ardd[6].

Er gwaethaf pwysigrwydd hanfodol addasiadau priodol ac effeithiol i iechyd ac i lesiant pobl hŷn, mae'r broses o gael gafael ar addasiadau i'w cartref yn gallu bod yn gymhleth ac yn hir i bobl hŷn, ac mae'r loteri cod post sy'n wynebu unigolion sy'n ceisio cael gafael ar addasiadau yn hysbys iawn.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi bod nifer o adroddiadau wedi bod ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y systemau addasu cartrefi yng Nghymru. Yn fwyaf diweddar, mae Swyddfa Archwilio Cymru, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cyhoeddi adroddiadau ar y mater yn 2018. Mae'r ymgynghoriad hwn ar y safonau gwasanaeth arfaethedig yn ymateb a groesewir i argymhelliad gan Swyddfa Archwilio Cymru. Rhaid i'r safonau gwasanaeth newydd gyflawni gwelliannau er mwyn i bobl hŷn allu bod yn glir am yr hyn mae modd iddyn nhw ei ddisgwyl, a'r hyn mae ganddyn nhw hawl iddo.

---

[1] Baltes, M.M., Wahl, H-W, Schmid-Furstoss, U. (1990) The daily life of the elderly at home. Activity patterns, personal control, and functional health. Journal of Gerontology Social Sciences, 45, 173-179

[2] Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, Housing for Older People in Wales: An Evidence Review, June 2015

[3] Arolwg Byw yng Nghymru 2008

[4] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2014)

[5] Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru, Asesu'r Effaith ar Iechyd ym maes Cynllunio, Tai ac Adfywio

[6] Iechyd Cyhoeddus Cymru, Tai ac Iechyd Cynnwys wedi'i addasu o Thomson, H., Thomas, S., Sellstrom, E. And Petticrew, M. (2013). Housing improvements for health and associated socio-economic outcomes. Cochrane Database of Systematic Reviews 2013. Issue 2. Art. No. CD008657. DOI: 10.1002/1461858.CD008657.pub2

Cwestiwn 1: A fydd y safonau gwasanaeth arfaethedig yn gwella'r ffordd y darperir addasiadau tai yng Nghymru? Os ddim, a oes yna unrhyw safonau gwasanaeth pellach y dylid eu cynnwys?

Mae cyflwyno safonau gwasanaeth â'r potensial i wella'r modd y caiff addasiadau tai eu darparu yng Nghymru - er enghraifft, mewn ymgais i sicrhau bod amserlenni a phrofiadau unigolion yn cael eu halinio, waeth beth fo'u daliadaeth a ffrwd ariannu.

Fodd bynnag, rhaid nodi o'r cychwyn mai dim ond os bydd y safonau'n cael eu gweithredu a'u cyflwyno'n gyson ar draws sefydliadau ac ardaloedd daearyddol (e.e. yn y defnydd o asesiadau therapyddion galwedigaethol), y bydd y dull hwn yn llwyddiannus.

Os na weithredir y safonau'n gyson, mae risg y gallai'r strwythurau a'r llwybrau cyllido sylfaenol arwain at amrywiadau o ran profiadau ac amserlenni ar gyfer unigolion o hyd, yn dibynnu ar eu daliadaeth neu eu ffrwd ariannu.

Er mwyn penderfynu a ydy'r safonau gwasanaeth wedi gwella'r ffordd caiff addasiadau i dai eu cyflawni, mae'n rhaid asesu effaith y safonau newydd ar brofiadau pobl hŷn yn genedlaethol.

O ran manylion y safonau;

Deddf Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae'r ddogfen ymgynghori yn cydnabod y rôl a osodir gan addasiadau wrth wella iechyd a lles, a lleihau pwysau ar wasanaethau iechyd a gofal rheng flaen. Dylai cyfeiriadau at Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a chydlyniad â hi, fod yn gryfach trwy gydol y ddogfen - fel y dylid cydnabod yn glir y gall addasiadau chwarae rhan wrth gyflawni canlyniadau unigol. Gallai'r dyletswyddau cyffredinol a geir yn Adran 6 y Ddeddf fod yn sail bwysig i'r broses o bennu angen am addasiad, cynllunio ei ddarpariaeth a chefnogi unigolyn i gymryd rhan mewn penderfyniadau.

Safon 1: Pwrpas

Mae'r ddogfen ymgynghori yn cydnabod pwrpas addasiadau - i hyrwyddo annibyniaeth unigolyn, gwella eu hiechyd a'u lles a chwarae rhan bwysig mewn atal. Fodd bynnag, mae Safon 1 ei hun yn

canolbwyntio ar yr elfen annibyniaeth yn unig ac mae angen ei hehangu i gydnabod yr anghenion a'r canlyniadau a nodwyd ar gyfer unigolyn, a'r llu o ddibenion y gellir eu cyflawni gan addasiad.

Safon 3: Cyfathrebu

Mae Safon 3 yn cyfeirio at sicrhau bod cyfathrebiad mewn fformatau hygyrch. Er ei fod wedi'i gynhyrchu ar gyfer GIG Cymru, gall 'Safonau Cymru Gyfan ar gyfer cyfathrebu a gwybodaeth i bobl â nam ar y synhwyrau', fod yn berthnasol yma.

Efallai y bydd unigolyn angen cael mynediad at eiriolaeth er mwyn 'cael eu cynnwys yn y broses gwneud penderfyniadau' fel y nodwyd yn y safonau. Dylai rôl eiriolaeth gael ei chydnabod yn benodol o fewn y safonau[7].

Safon 4: Ansawdd Gwasanaeth

Mae'r safon hon yn nodi 'os yw defnyddiwr gwasanaeth yn penderfynu defnyddio ei gontractwr ei hun i gyflawni'r gwaith, cyfrifoldeb y defnyddiwr gwasanaeth fydd delio â nhw a datrys unrhyw broblemau'. Mae angen eglurder yma ynglŷn â'r angen i roi gwybodaeth hygyrch i dderbynwyr grantiau am eu rôl a'u cyfrifoldebau, goblygiadau unrhyw berthynas gytundebol y gallent fod ynddi a bodolaeth 'contractwyr dibynadwy' pe baent yn dymuno dewis eu contractwr eu hunain.

Safon newydd: Gwerthusiad

Safon 3: Mae cyfathrebu ar hyn o bryd yn cyfeirio at yr angen i wahodd defnyddiwr gwasanaeth i roi adborth ar ddiwedd y gwaith gosod. Nid yw hyn yn ddigonol. Er bod monitro data addasiadau tai yn ystyried hyn, nid oes safon ehangach o fewn y safonau gwasanaeth arfaethedig sy'n ymwneud ag a yw'r addasiad wedi cyflawni ei amcan a ddymunir, a beth oedd profiad yr unigolyn wrth gael addasiad. Mae angen cynnwys yr elfen werthuso hon fel safon yn ei rhinwedd ei hun.

[7] 'Beth yw eiriolaeth annibynnol a pham mae'n bwysig i bobl hŷn? Yn 'Sicrhau Lleisiau Pobl Hŷn - Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2018)'

Cwestiwn 2: A yw'r safonau gwasanaeth arfaethedig ar yr 'Amserlenni Disgwyliedig' (Safon Gwasanaeth 6), yn ddigon heriol?

Nid yw'r 'Amserlenni Disgwyliedig' o fewn y safonau gwasanaeth arfaethedig yn cyfeirio at unrhyw lefel o angen neu frys yr unigolyn sydd angen addasiad. Bydd amser penodol bob amser wrth nodi, trefnu ac ymgymryd ag addasiadau, ond mae'r cwestiwn a yw'r amserlenni arfaethedig yn ddigon heriol yn anodd ei ateb, heb gynnwys brys neu angen unigolion dan sylw fel ffactor.

Mae'r categori 'addasiadau bach' yn 'Ffigur 2' yn cydnabod y gallai'r rhain fod ar gyfer unigolion sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty mewn brys. Fodd bynnag, mae angen cydnabyddiaeth o fewn safonau'r gwasanaeth y gall weithiau fod yn briodol, lle bo'n bosibl, i wneud addasiad yn gyflym os pennir hynny drwy angen neu frys y sefyllfa.

Yn ychwanegol at hyn, efallai y bydd angen i unigolyn gael nifer o addasiadau o gategorïau bach, canolig neu fawr. Mae angen i'r safonau gwasanaeth gydnabod yn glir, os yw addasiadau bach/canolig wedi'u nodi ochr yn ochr â gwaith mwy, yna rhaid iddynt gael eu cwblhau o fewn yr amserlenni perthnasol ac nid eu pentyrru gyda'r addasiad mwy (a threfniadau amser hwy).

Mae'r amserlenni disgwyliedig yn cynnwys pwynt cychwyn neu hanner ffordd o'r adeg y barnwyd bod yr addasiad yn angenrheidiol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw wybodaeth yn cael ei rhoi ar yr hyn sy'n digwydd i'r amserlenni os oes anghytundeb neu her ynghylch a yw'r addasiad yn cael ei ystyried yn angenrheidiol.

Yn olaf, mae'n rhaid i'r safonau gwasanaeth fod yn eglur na ddylai cyflwyno'r amserlen ddisgwyliedig arwain at 'ras i'r gwaelod', a dylai darpariaeth fod o fewn yr amserlen gyflymaf bosibl bob amser.

Cwestiwn 3: A yw'r diffiniadau ar gyfer addasiadau bach, canolig a/neu fawr yn ddigon clir? Os ddim, sut y gellid eu hegluro?

Mae'r 'addasiadau bach' yn cynnwys y rhai a all / allai gael eu cynnwys yn 'unigolion sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty ar frys a gellir asesu a gosod o fewn diwrnodau, neu yr un diwrnod os oes brys'.

Er na fydd rhai addasiadau canolig a mawr yn gallu cael eu gosod o fewn diwrnodau neu ar yr un diwrnod, efallai y bydd angen eu gosod o hyd ar gyfer unigolion sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty neu iechyd a lles unigolyn. Mae'n debyg y bydd y rhain yn rhai addasiadau canolig, y gellid eu gosod o fewn ychydig ddyddiau pe byddai'r fath frys yn bresennol (e.e. lifft grisiau syth), ac mae angen cynnwys y gydnabyddiaeth hon o fewn y diffiniadau.

Yn fwy eang, mae diffyg cydnabyddiaeth ar draws y safonau gwasanaeth, yn gyffredinol, o gyd-destun yr unigolyn (e.e. angen a brys), yr ystyrir addasiad oddi tano.

Cwestiwn 4: A oes yna unrhyw faterion yn ymwneud ag effaith ar yr iaith Gymraeg, cydraddoldeb neu hawliau plant mewn perthynas â'r canllaw drafft hwn y dymunech dynnu sylw atynt?

Mae'r ddogfen ymgynghori yn cydnabod y rôl hanfodol y mae addasiadau'n ei chwarae wrth gefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol, gwella eu hiechyd a'u lles a lleihau pwysau ar wasanaethau eraill o fewn iechyd a gofal. Gall addasiadau hefyd fod yn hanfodol wrth gyflawni canlyniadau unigol.

O ystyried y cysylltiad agos rhwng addasiadau a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, dylid cydnabod Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn o fewn y safonau gwasanaeth a'r angen i unigolion sy'n gweithredu swyddogaethau o dan y Ddeddf roi sylw dyledus iddynt.